



Schools Service
Gwasanaeth Ysgolion
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Ffôn / Tel : 01686 614017
E-bost / E-mail : School.transformation@powys.gov.uk
Eich cyf / Your ref : Prosiect Bro Hyddgen
Dyddiad / Date : Ebrill/ April 2018

*Os yn galw gofynnwch am /
If calling please ask for: Betsan Ifan*

Annwyl Riant / Gofalwr

Rwy'n falch cyhoeddi bod Cyngor Sir Powys wedi penodi'n swyddogol **Dawnus** yn brif gontractwr i gyflenwi'r ysgol pob oed newydd ym Machynlleth.

Mae Dawnus yn gontractwr profiadol sy'n gweithio yng Nghymru ac wedi darparu prosiectau adeiladau ysgolion ymhob cwr o'r wlad. Maent eisoes yn gweithio gyda'r awdurdod i gyflenwi dwy ysgol gynradd newydd yn y Trallwng.

Fel awdurdod, mae'n bleser mawr gennym ddatgelu mai adeilad Ysgol Bro Hyddgen fydd yr ysgol bob oed Passivhaus gyntaf yn y DU; mae hyn yn golygu y bydd yr ysgol yn cyrraedd safon uchel o ran effeithlonrwydd ynni a bydd agen ond ychydig o ynni ar gyfer gwresogi ac oeri, felly bydd yn lleihau'n sylweddol allyriadau CO₂ yr ysgol.

Bydd seilwaith yr ysgol newydd gwerth £23 miliwn, sy'n cael ei gyllido ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, yn cael ei godi ar gaeau chwarae presennol y campws uwchradd, a bydd yr hen adeilad yn cael ei ddymchwel i ddarparu lle ar gyfer maes parcio a chyfleusterau chwaraeon newydd.

Dear Parent/Carer

I am pleased to announce that Powys County Council has officially appointed **Dawnus** as the lead contractor to deliver the new all-through school in Machynlleth.

Dawnus is an experienced Welsh-based contractor who have delivered school construction projects right across the country and are already working with the authority in delivering two new primary schools in the town of Welshpool.

As an authority, we are extremely pleased to reveal that the new Ysgol Bro Hyddgen building will be the very first fully Passivhaus all-through school within the UK; meaning that the school will reach a high standard in energy efficiency and will require little energy for heating and cooling, and therefore significantly reducing the school's Co₂ emissions.

The £23 million new school infrastructure which is jointly funded by Powys County Council and Welsh Government 21st Century Schools Programme will be built on the current playing fields on the secondary campus, with the old building being demolished to make room for a new car park and sporting facilities.

Cymunedau cryf yng nghalon werdd Cymru
Strong communities in the green heart of Wales
www.powys.gov.uk



Bydd yr ysgol yn arddel y dull 'o'r crud i'r coleg' gyda 3 dosbarth blynyddoedd cynnar a chyfleusterau ategol, a lle yn yr ysgol gynradd (dosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 6) i 210 o ddisgyblion. Bydd lle yn yr ysgol uwchradd i 380, gan gynnwys darpariaeth 6^{ed} dosbarth.

Bydd cyfleusterau chwaraeon newydd fel MUGA (sef ardal chwaraeon aml-ddefnydd) a chae 3G yn cael eu darparu, a byddant ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Disgwylir y bydd campws newydd yr ysgol yn agor i ddisgyblion fis Medi 2020.

Bydd yr awdurdod yn dechrau yn awr ar gyfnod o ymgynghori gyda'r ysgol i ddewis y dyluniad terfynol ac yn nes ymlaen, bydd yn cynnal digwyddiadau taro heibio i rieni.

Bydd cynnydd yr adeilad newydd yn ystod y cyfnod adeiladu i'w weld ar wefan yr awdurdod, tudalennau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr yr ysgol.

Diolch yn fawr i chi am eich parodrwydd i gydweithredu a chefnogi'n barhaus.

The school will embrace the 'cradle to college' approach with 3 early years' class bases and ancillaries, with a primary school capacity (Reception to year 6) of 210 pupils. The secondary phase capacity will be 380 including 6th form provision.

New sporting facilities such a MUGA (multi use games area) and a 3G pitch will also be constructed and will be available for community use.

It is anticipated that the new school campus will open to pupils in September 2020.

The authority will now commence a consultation period with the school to finalise the designs and drop in events for parents will be arranged at a future date.

Progress on the new-build can be seen on the authority's website, social media pages and school newsletter.

Thank you for your continued corporation and support

Yn gywir / Yours sincerely

Betsan Ifan

Rhelowr Prosiectau Trawsnewid Ysgolion/
School Transformation Projects Manager